



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE

Llythyr Diweddarau Ail-Agor Cyfnod Sylfaen 22ain Chwefror / *Update on School Re-Opening for Foundation Phase 22nd February*

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Annwyl rieni a gofalwyr / *Dear Parents and Carers*

Gair enfawr o ddiolch yn gyntaf i chi am eich cydweithrediad gyda'r dysgu o adref a'r newidiadau amrywiol – rydym wir yn gwethfawrogi eich cefnogaeth.

Rydym am eich hysbysu y bydd yr Ysgol ar agor i holl ddisgyblion Cyfnod Sylfaen (Meithrin, Derbyn, BI 1 & 2) o Ddydd Llun 22/02/2021 ymlaen. Byddwn yn parhau gyda'r un trefniadau â chyn y gwyliau sef gwahanu amseroedd Gollwng a Chasglu er mwyn cadw'n holl ddisgyblion yn ddiogel a chadw at ganllawiau llym y llywodraeth.

Bydd dysgu ar-lein a byw o'r cartref yn parhau i disgyblion Cyfnod Allweddol 2 (BI 3,4,5&6).

Trefniadau Gollwng a Chasglu / *Drop off and Collection times*

Dosbarthiadau / <i>Classes</i>	Amser Gollwng / <i>Drop off slot</i>	Amser Casglu / <i>Collection slot</i>
Miss Lewis (B2), Mrs Saunders (B1&2) a Miss Stephanie Davies (B1)	8:50 - 9:00am	3:00 - 3:10pm
Mrs Jones Fowler (D&B1), Mrs Jones / Mrs Morgan (Derbyn)	9:00 - 9:10am	3:10 - 3:20pm
Mrs Laura Evans (Meithin Bore / <i>Morning Nursery</i>)	9:10 - 9:20am	11:20 - 11:30am
Mrs Laura Evans (Meithin Prynawn / <i>Afternoon Nursery</i>)	12:15 - 12:25pm	2:25 - 2:35pm

Mae'n holl bwysig ein bod i gyd yn dilyn y canllawiau am olchi dwylo, pellter cymdeithasol a gorchydd wyneb. Rydym yn gofyn i chi atgoffa'ch plant o hyn, ac i chithau hefyd wisgo gorchydd wyneb wrth ollwng a chasglu eich plant. Cadwch eich pellter oddi wrth eraill a pheidiwch a chasglu yn y maes parcio – mae hyn yn holl bwysig yn yr ymdrech i leihau'r lledu yn y gymuned. Rydych wedi bod yn wych hyd yn hyn.

Mae'n bwysig iawn cofio nad yw dychwelyd i'r ysgol gyfystyr a dychwelyd i fywyd arferol, ac ni ddylai plant fod yn cymysgu tu fas i awyrgylch yr ystafell ddosbarth. Rydym wedi creu swigod dan amodau pwrpasol i gadw'ch plant yn ddiogel yn yr ysgol, tu fas i hyn y neges yw – arhoswch adref.

Mae ysgolion yn barhaus o dan adolygiad y llywodraeth gan gymeryd i ystyriaeth niferoedd achosion a'r raddfa R. Gall chwyddinant yn yr achosion achosi i ysgolion gau eto.

Fel yn y cylchlythyron blaenorol, gofynnwn yn garedig i chi ein e-bostio os nad yw'n hanfodol cysylltu â'r swyddfa. Diolch.

A sincere word of thank you first of all for your co-operation with the home learning and various changes – we really appreciate your support.

*We would like to inform you that the school will be open to all Foundation Phase (Meithrin, Derbyn, BI 1 & BI 2) pupils from Monday 22/02/21. We will continue with the arrangement of staggered starts, as before the holidays, in order to keep all pupils safe and adhere to strict government guidance. (see **Drop-off and Collection Times above**)*

Online and live learning from home will continue for all Key Stage 2 (BI 3,4,5&6) pupils.

It's extremely important that we all keep to the guidance of handwashing, social distancing and face coverings. Please remind your children of this, and we ask you to wear a face covering for all drop-offs and collections. Keep your distance from others and please don't gather in the school car park – this is vital in the effort to reduce transition in the community. You have been brilliant so far.

It is also important to remember that a return to school does not equate to a return to normal life, and children should not be mixing outside of school. We have created a safe environment in school within classroom bubble settings, outside of this environment, the 'stay at home' requirement must be adhered to.

As schools, we are continuously under government review taking into account the infection rates and the R rate. An increase to these figures could result in schools closing again.

As mentioned in previous newsletters, if speaking to the office directly is not absolutely essential, please email us instead. Thank you

Pwysig – Protocol Covid-19 / Important – Covid-19 Protocol

Os yw disgybl yn **derbyn canlyniad prawf positif** gofynnwn i rieni ddefnyddio'r protocol isod os gwelwch yn dda. E-bostiwch yr ysgol gyda'r canlynol (yggpontardawe@npt.school)

Pwnc : "Pwysig – Covid"

Neges : "Cysylltwch â mi ar y rhif canlynol ..."

Peidiwch cynnwys unrhyw wybodaeth arall ac fe gysylltw'n â chi cyn gynted ag y bo modd.

*In the event of a **pupil testing positive** for Covid-19, please email the school with the following (yggpontardawe@npt.school)*

Subject: "Important - Covid"

Message: "Contact me on the following number ..."

Please do not include any other information and we will contact you as soon as we can.

Cofiwch / Remember

Cofiwch bwysigrwydd fod rhieni yn gwirio nad yw eu plant yn dangos unrhyw symptomau cyn mynychu - tymheredd uchel, pyliau peswch cyson newydd a cholled neu newid i arogl neu flas. Os ydynt yn arddangos y symptomau yma, **ni ddylent fod yn yr ysgol ar unrhyw gyfrif a dylid trefnu prawf**. Yn yr un modd, os yw rhieni'n dangos symptomau ac yn debygol o fod yn trefnu prawf, peidiwch danfon y plant i'r ysgol.

*Remember the importance of parents checking that their children are not showing any symptoms before attending - high temperature, constant new coughs and loss or a change in smell or taste. If they exhibit these symptoms, **they should not be in school under any circumstances and a test should be arranged**. Likewise, if parents are showing symptoms and are likely to be subject to testing, please do send pupils to school.*

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Yn anffodus, ni allwn gynnig dyddiad ar gyfer ail gychwyn y clwb brecwast. Pan fyddwn yn barod i ail gychwyn, fe'ch hysbyswn.

Unfortunately, we cannot offer a date for the restart of the breakfast club. When we are ready to restart, we will inform you.

Clybiau ôl ysgol / After school clubs

Yn yr un modd, gan na allwn gymysgu disgyblion, ar hyn o bryd ni allwn gynnig clybiau ôl ysgol ar hyn o bryd.

Again, as we cannot mix pupils, we cannot currently offer after school clubs.

Cinio Ysgol / School Dinners

Bydd cinio twym ar gael yn dilyn yr un drefn y chyn y nadolig. Y gost yw £2.35 y dydd (£11.75 yr wythnos). Dim ond drwy ParentPay y gallwn dderbyn taliadau ar hyn o bryd. Peidiwch danfon arian parod i'r ysgol os gwelwch yn dda. Mae hefyd angen talu erbyn y dydd Gwener blaenorol. Mae'r fwydlen ddyddiol ar gael trwy glicio [Bwydlen Ysgol](#).

Hot dinners will be available following the same order as before Christmas. The cost is £2.35 per day (£ 11.75 per week). We can currently only accept payments through ParentPay. Please do not send cash to school. Payment is also required by the previous Friday. The daily menu is available by clicking [School Menu](#).

Gollwng a Chasglu / Drop Off and Collection

Mae'r system gollwng a chasglu ar hyn o bryd yn rhedeg yn llyfn. Mae'n debygol y bydd y system yn para am rai wythnosau os nad misoedd i ddod. I gynnal y llif drwy'r maes parcio atgoffwn bawb o bwysigrwydd cyrraedd rhwng yr amseroedd gollwng a chasglu priodol ac nid cyn nac ar ôl hynny. Mae pawb wedi dangos gymaint o gydweithrediad. Allwn barhau yn yr un modd, diolch. (Amseroedd uchod)

The drop-off and collection system is currently running smoothly. The system is likely to last for some weeks if not months to come. To maintain the flow through the car park we remind everyone of the importance of arriving between the appropriate drop off and collection times and not before or after. Everyone has been so cooperative. Please continue in the same way, thank you. (Times listed above)

Pellter Cymdeithasol – Gorchydd Wwyneb / Social Distancing – Face Covering

Eto, atgoffwn rieni i wisgo gorchydd wyneb a parchu rheoliadau pellhau cymdeithasol wrth glwyd yr ysgol ac yn enwedig gyda staff yr ysgol. Gofynnwn i chi osgoi sgwrsio yn y maes parcio a gwagio'r maes parcio cyn gynted â phosib. Diolch i chi. Yn anffodus, ni fydd y staff ar gael i siarad â rhieni ar ddechrau a diwedd y dydd gan fod yn rhaid i ni leihau'r cyswllt rhwng oedolion ar y safle. Os oes angen i chi siarad â'r athro, e-bostiwch yr ysgol ac fe gysylltant â chi.

Again, we remind parents to wear a face covering and respect social isolation regulations at the school gate and especially with school staff. Please avoid chatting in the car park and leave the car park as soon as possible. Many thanks. Unfortunately, staff will not be available to talk to parents at the beginning and end of the day to reduce contact between adults on site. If you need to talk to the teacher, email the school and they will contact you.

Bysus / School Transport

Mae trafniadaeth ysgol (bysus) yn rhedeg fel arfer. Mae trefniadau yn eu lle i dderbyn disgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol ar fws. Efallai fod amser casglu a gollwng wedi'i effeithio ychydig. Gwiriwch gyda'r cwmni bus.

School transport (buses) is running normally and arrangements are in place to admit pupils arriving at school by bus. Collection and drop off times may have been slightly affected. Please check with the bus company.

Derbynfa / Reception

Bydd y dderbynfa **ar gau** ac ni fydd ymwelwyr yn cael mynediad i'r ardal yma heb apwyntiad. Am y tro gofynnwn i chi ond i ddefnyddio'r ffôn pan ei bod yn wir angenrheidiol. Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost ar waelod y cylchlythyr os gwelwch yn dda. Pwysleisiwn – ni fydd drws y dderbynfa yn cael ei agor. Os yw'r disgyblion yn hwyr, arhoswch yn y maes parcio, ffoniwch yr ysgol ac fe drefnwn aelod i staff gasglu'r disgybl o'r maes parcio.

*The reception area is **closed** and visitors will not gain access to this area without an appointment. For the time being we ask you only to use the phone when it is absolutely necessary. Please use the email address at the bottom of the newsletter. **We emphasise - the reception door will not be opened.** If pupils are late, stay in the car park, telephone the school and we will arrange for a member of staff to collect the pupil from the car park.*

HMS a Gwyliau / INSET and Holiday Dates

Mae'r diwrnodau HMS sydd eisoes wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf isod. Mae hyn yn gadael dau ddiwrnod HMS i'w trefnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Fe rown gymaint o rybudd a phosib i chwi wedi trefnu'r rhain.

INSET days already planned for the next academic year are listed below. This leaves two INSET days yet to organise. As soon as these are organised, we will provide as much notice as possible.

Dydd Gwener, Gorffennaf 16eg 2021 / *Friday, July 16th 2021*

Maes Parcio / Car Park

Gofynnwn yn garedig i'n holl rieni osgoi parcio yn yr ardal oeddi anabl heb fathodyn, parcio ar balmantau a chau'r llwybrau diogel i deuluoedd gerdded i ac o'r ysgol. Fydech chi hefyd yn gallu dangos ystyriaeth i'n cymdogion ym Maes yr Ysgol a Lon Masarn. Cofiwch roi blaenoriaeth i gerddwyr bob amser.

Could we kindly remind all parents not to park in the disabled bay without a valid badge, to park on pavements and block the safe routes for our families as they walk to and from school. Please also show consideration for our neighbours in Maes yr Ysgol and Sycamore Lane. Remember to always give priority to pedestrians.

Cyswllt Rhieni – CA2 / Parent Links – KS2

Byddwn yn parhau i ddanfôn gwaith i gyfrifon Hwb disgyblion CA2. Ceisiwch sicrhau fod eich plant yn mewngofnodi adref yn rheolaidd. Bydd athrawon yn danfon gwaith i'r cyfrifon yma'n ddyddiol (yn unol â threfn y dosbarth). Cofwch hefyd wirio ebost eich plentyn am seisynnau byw Teams.

We will continue to send work to KS2 pupils' Hub accounts. Try to ensure that your children continue to log on at home. Teachers send homework to these accounts daily (in

accordance with class routines). Remember also to check your child's email for the live Teams sessions.

Diolch unwaith eto i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus. Mae'n amser anhygoel o anodd i bawb. Os ydych chi ein hangen ni, cysylltwch trwy e-bost yn yggpontardawe@npt.school.

I can once again thank you all for your continued support and understanding. It is an incredibly difficult time for everyone. If you need us, please contact by email at yggpontardawe@npt.school.

Cadwch yn saff
Stay safe

Arwel Owen
Dirprwy Bennaeth *Deputy Headteacher*
11.02.20

Dyddiadur 2020 - 2021 / 2020 - 2021 Diary

Hanner Tymor – Chwefror 15 ^{fed} i Chwefror 19 ^{eg} <i>Half Term – February 15th to February 19th</i>	
Gwylau Pasg – Cau i ddisgyblion dydd Gwener, Mawrth 26 ^{ain} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 12 ^{fed} <i>Easter Holidays – School closes to pupils on Friday, March 26th and will re-open on Monday, April 12th</i>	
Dydd Iau, Mai 27 ^{ain} <i>Thursday, May 27th</i>	Mabolgampau Ysgol <i>School Sports Day</i>
Hanner Tymor Sulgwyn – Mai 31 ^{ain} i Fehefin 4 ^{ydd} <i>Half Term Whitsun – May 31st to June 4th</i>	
Dydd Iau, Mehefin 17 ^{eg} <i>Thursday, June 17th</i>	Diwrnod agored B6 yn Ysgol Gyfun Ystalyfera <i>Y6 Open Day in Ysgol Gyfun Ystalyfera</i>
Mawrth i Iau, Mehefin 24 ^{ain} i'r 27 ^{ain} <i>Tuesday to Thursday, June 24th to 27th</i>	Diwrnod sgiliau B5 yn Ysgol Gyfun Ystalyfera <i>Y5 skills days in Ysgol Gyfun Ystalyfera</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 2 ^{ail} <i>Friday, July 2nd</i>	Mabolgampau Clwstwr yn YG Ystalyfera (Tîm B3 – B6) <i>Cluster Sports at YG Ystalyfera (Y3 – Y6 Team)</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 9 ^{fed} <i>Friday, July 9th</i>	B6 – Gig Siarter Iaith yn YG Ystalyfera <i>Y6 – Language Charter Gig at YG Ystalyfera</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 16 ^{eg} <i>Friday, July 16th</i>	HMS <i>INSET</i>
Gwylau'r Haf – Cau i ddisgyblion dydd Iau, Gorffennaf 15 ^{fed} ac yn ail agor ar ddydd Gwener, Medi'r 3 ^{ydd} <i>Summer Holidays – School closes to pupils on Thursday, July 15th and re-opens on Friday, September 3rd</i>	
Dydd Iau, Medi'r 2 ^{ail} <i>Thursday, September 2nd</i>	HMS <i>INSET</i>